O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2019 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Ffin Cymru/Lloegr) a Chefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Ewlo i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2019

*Gwnaed* *22 Mawrth 2019*

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd yr A55 a'r A494/A550, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd i Ffin Cymru/Lloegr) a Chefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Ewlo i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 1 Ebrill 2019.

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H  S T A T U T O R Y
I N S T R U M E N T S

# 2019 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A55 Trunk Road (Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd to the Wales/England Border) and the A494/A550 Trunk Road (Ewloe Interchange, to the Wales/England Border, Flintshire) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2019

*Made* *22 March 2019*

*Coming into force* *1 April 2019*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A55 and the A494/A550 Trunk Roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the roads.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984**(1)**, make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1.** The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Bangor, Gwynedd to the Wales/England Border) and the A494/A550 Trunk Road (Ewloe Interchange to the Wales/England Border, Flintshire) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2019 and it comes into force on 1 April 2019.

**(1)** 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(2)** neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 1 Ebrill 2019 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "y gefnffordd" neu "y cefnffyrdd" ("*the trunk road(s)*") yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor a Chefnffordd yr A494/A550 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**(2)** Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**2.** (1) In this Order:

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means:

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984 Act**(2)** or in connection with the works giving rise to this Order;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" *("lluoedd arbennig")* means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the trunk road(s)" ("*y gefnffordd"* or *"y cefnffyrdd*") means the A55 Chester to Bangor Trunk Road and the A494/A550 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road;

"works period" ("*cyfnod y gwaith*") means intermittent periods commencing at 00:01 hours on 1 April 2019 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

**(2)** Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt y cyfeirir ato yn erthygl 2(1)(a), fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50, 40 neu 30 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, sy'n cario llwyth lletach na 3.0 metr gael ei yrru ar y darnau o'r gefnffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt y cyfeirir ato yn erthygl 2(1)(a), droi i'r dde o gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**Atal Dros Dro**

**9.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r cefnffyrdd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**10.** (1) Nid yw'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**11.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

**Prohibitions and Restrictions**

**3.** No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle referenced at article 2(1)(a), to proceed on the lengths of the trunk roads and slip roads specified in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may, during the works period, ride or cause to be ridden, any pedal cycle on the lengths of the trunk roads and slip roads specified in Schedule 1 to this Order.

**5.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk roads and slip roads specified in Schedule 1 to this Order.

**6.** No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle to proceed at a speed exceeding 50, 40 or 30 miles per hour on the lengths of the trunk roads and slip roads specified in Schedule 1 to this Order.

**7.** No person may, during the works period, drive any vehicle, or cause or permit any vehicle to be driven, bearing a load greater than 3.0 metres wide on the lengths of the trunk roads and slip roads specified in Schedule 1 to this Order.

**8.** No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle referenced at article 2(1)(a), to make a right hand turn from the eastbound carriageway on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

**Suspensions**

**9.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the relevant lengths of the trunk roads and slip roads are suspended during such times as the restrictions specified in article 6 are in operation.

**Application**

**10.** (1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7 and 8 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

**Duration of this Order**

**11.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Mawrth 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the 22 March 2019

*Richard Morgan*
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro, Terfyn Cyflymder 50, 40, 30 milltir yr awr a Chyfyngu ar Led Cerbydau 3.0 metr neu'n lletach

Y darn o brif gerbytffordd a ffyrdd ymuno ac ymadael cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd i ffin Cymru/Lloegr, man i'r dwyrain o Gyffordd 36a (Brychdyn), Sir y Fflint.

Y darn o brif gerbytffordd a ffyrdd ymuno ac ymadael cefnffordd yr A494/A550 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 34 yr A55 (Cyfnewidfa Ewlo) i ffin Cymru/Lloegr, man i'r gogledd-ddwyrain o Bont Afon Dyfrdwy, Queensferry, Sir y Fflint.

### ATODLEN 2
### Gwahardd Troi i'r Dde Dros Dro

Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) o'r gerbytffordd tua'r dwyrain o amgylch y gerbytffordd gylchredol i ymuno â Ffordd Penmaenmawr.

Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin) o'r gerbytffordd tua'r dwyrain o amgylch y gerbytffordd gylchredol i ymuno â Ffordd Conwy.

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CYFFORDD 11 (CYFNEWIDFA LLYS Y GWYNT), BANGOR, GWYNEDD I FFIN CYMRU/LLOEGR) A CHEFNFFORDD YR A494/A550 (CYFNEWIDFA EWLO I FFIN CYMRU/LLOEGR, SIR Y FFLINT) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A GWAHARDD CERBYDAU) 2019

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A55 a'r A494/A550, neu gerllaw iddynt, rhwng Cyfnewidfa Llys y Gwynt,

## SCHEDULES

### SCHEDULE 1
### Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians, 50, 40, 30 miles per hour Speed Limit and Vehicle Width Restriction over 3.0 metres

The length of the main carriageway and slip roads of the A55 trunk road that extends from a point 800 metres west of the centre-point of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Gwynedd to the Wales/England border, east of Junction 36a (Broughton), Flintshire.

The length of the main carriageway and slip roads of the A494/A550 trunk road that extends from the centre-point of the A55 Junction 34 (Ewloe Interchange) to the Wales/England border, north east of the River Dee Bridge, Queensferry, Flintshire.

### SCHEDULE 2
### Temporary Prohibition of Right Hand Turns

Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) from the eastbound carriageway around the circulatory carriageway to join Penmaenmawr Road.

Junction 16 (Puffin Roundabout) from the eastbound carriageway around the circulatory carriageway to join Conwy Road.

## THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 11 (LLYS Y GWYNT INTERCHANGE), BANGOR, GWYNEDD TO THE WALES/ ENGLAND BORDER) AND THE A494/A550 TRUNK ROAD (EWLOE INTERCHANGE TO THE WALES/ENGLAND BORDER, FLINTSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS AND RESTRICTIONS) ORDER 2019

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 and A494/A550 trunk roads between Llys y Gwynt Interchange, Gwynedd and the Wales/England

Gwynedd a Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

i) gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys), beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd a ffyrdd ymuno ac ymadael yr A55 a'r A494/A550 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn yr Atodlen honno hefyd;

ii) gosod terfyn cyflymder o 30, 40 neu 50 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn fel y dangosir gan arwyddion. (Disgwylir i'r terfynau cyflymder dros dro fod yn weithredol drwy gydol cyfnod para'r gwaith);

iii) gwahardd cerbydau dros 3.0 metr o led rhag mynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn yn ystod oriau'r nos. Caiff cerbydau eu parcio dros nos tra bod y gwaharddiad ar waith. Bydd yr amseroedd a'r dyddiadau yn amrywio fel y'i dangosir gan arwyddion rheoli traffig;

iv) gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys), rhag troi i'r dde ar y darnau o'r A55 a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn yr Atodlen honno hefyd.

Disgwylir y bydd y Gorchymyn yn dod i rym am 00:01 o'r gloch ar 1 Ebrill 2019 ac yn weithredol, yn ysbeidiol, am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Codir arwyddion traffig ymlaen llaw cyn dechrau'r gwaith ar unrhyw safle. Caiff y ffyrdd eu cau am gyfnodau sy'n amrywio o un safle i'r llall. Pan fo angen cau darnau o'r brif gerbytffordd, gwneir hynny am gyfnodau byrion heb fod yn hwy nag 20 munud a heb fod angen llwybr arall. Pan fo'n bosibl, gall hyn fod yn gymwys i gau ffyrdd ymuno ac ymadael hefyd, ond ar y cyfan bydd ffyrdd ymuno ac ymadael ar gau dros nos gyda llwybrau eraill ar gael. Ni fydd angen cau'r brif gerbytffordd yn llwyr a darparu llwybrau eraill ond o dan amgylchiadau annisgwyl eithriadol. Pan gytunir i hynny, caiff cerbydau brys eu hebrwng drwy'r darnau o'r ffyrdd sydd ar gau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar **www.llyw.cymru** (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/ 2019).

Border, Flintshire.

The effect of the Order will be to temporarily:

i) prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services), cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 and A494/A550 trunk roads and slip roads specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes, which will be signed accordingly, are also described in that Schedule;

ii) impose a 30, 40 or 50 miles per hour speed limit on the lengths of the trunk roads and slip roads specified in Schedule 1 to this Notice as indicated by signs. (The temporary speed limits are likely to be in place for the duration of the works);

iii) prohibit vehicles over 3.0 metres wide from proceeding on the lengths of the trunk roads and slip roads specified in Schedule 1 to this Notice during night time hours. Vehicles will be parked up overnight while the prohibition is in place. Times and dates will vary as indicated by traffic management;

iv) prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services), from making a right hand turn on the lengths of the A55 specified in Schedule 2 to this Notice. The alternative routes, which will be signed, are also described in that Schedule.

The Order is expected to come into force at 00:01 hours on 1 April 2019 and operate intermittently for a maximum duration of 18 months. Advance traffic signs will be displayed before the start of works at any one site. Closure periods may vary from site to site. Where it is necessary to close lengths of the main carriageway, these will be for short periods of no more than 20 minutes with no diversion route necessary. Where possible, this may also apply to slip road closures, but generally slip road closures will be carried out overnight with diversions. Full main carriageway closures with diversions would only be necessary in exceptional unforeseen circumstances. When agreed, emergency vehicles will be escorted through closures.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at **www.gov.wales** (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro, Terfyn cyflymder 50, 40 neu 30 milltir yr awr a Chyfyngu ar Led Cerbydau 3.0 metr neu'n lletach

Y darn o brif gerbytffordd a ffyrdd ymuno ac ymadael cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o bwynt 800 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Gwynedd i ffin Cymru/Lloegr, man i'r dwyrain o Gyffordd 36a (Brychdyn), Sir y Fflint.

Y darn o brif gerbytffordd a ffyrdd ymuno ac ymadael cefnffordd yr A494/A550 sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 34 yr A55 (Cyfnewidfa Ewlo) i ffin Cymru/Lloegr, man i'r gogledd-ddwyrain o Bont Afon Dyfrdwy, Queensferry, Sir y Fflint.

### Y Llwybrau Eraill pan fo'r Gwaharddiad ar Gerbydau, Beicwyr a Cherddwyr mewn Grym

Codir arwyddion priodol i nodi'r llwybrau eraill, a byddant yn amrywio gan ddibynnu ar ben y daith a phryd y bydd darn penodol o'r gerbytffordd neu'r ffyrdd ymuno ac ymadael ar gau dros dro i draffig.

Bydd y llwybrau eraill hyn ar hyd yr A55; yr Hen A55 Rhuallt; A5; A525; A540; A4087; A470; A483; A494; A5026; A547; A548; A549; A5104; A550; A5119; A5151; A494/A55; A550 (M53); A494 (M56); B5115; B5113; B5123; B5125; B5126; B5127; B5383; B5429; B5441 (a ffyrdd Dosbarth A, B, C eraill a ffyrdd diddosbarth eraill y cytunir arnynt). Codir arwyddion i nodi'r llwybrau eraill.

### ATODLEN 2
### Gwahardd Troi i'r Dde Dros Dro

Cyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) o'r gerbytffordd tua'r dwyrain o amgylch y gerbytffordd gylchredol i ymuno â Ffordd Penmaenmawr.

## SCHEDULES

### SCHEDULE 1
### Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians, 50, 40, 30 miles per hour Speed Limit and Vehicle Width Restriction over 3.0 metres

The length of the main carriageway and slip roads of the A55 trunk road that extends from a point 800 metres west of the centre-point of Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange), Gwynedd to the Wales/England border, east of Junction 36a (Broughton), Flintshire.

The length of the main carriageway and slip roads of the A494/A550 trunk road that extends from the centre-point of the A55 Junction 34 (Ewloe Interchange) to the Wales/England border, north east of the River Dee Bridge, Queensferry, Flintshire.

### Alternative Routes when Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians is in Force

The alternative routes, which will be signed as appropriate, will vary depending upon destination and when a particular length of carriageway or slip road is temporarily closed to traffic.

These alternative routes will involve the A55; Old A55 Rhuallt; A5; A525; A540; A4087; A470; A483; A494; A5026; A547; A548; A549; A5104; A550; A5119; A5151; A494/A55; A550 (M53); A494 (M56); B5115; B5113; B5123; B5125; B5126; B5127; B5383; B5429; B5441 (and other agreed A, B, C and unclassified roads), with diversion signs in place.

### SCHEDULE 2
### Temporary Prohibition of Right Hand Turns

Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) from the eastbound carriageway around the circulatory carriageway to join Penmaenmawr Road.

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r dwyrain yw ar hyd yr A55 tua'r dwyrain i Gyffordd 16 (Cylchfan y Puffin), dychwelyd tua'r gorllewin i Gyffordd 14 (Cyfnewidfa Madryn) drwy Lanfairfechan ar hyd Ffordd Aber a Ffordd Penmaenmawr.

Alternative route for eastbound traffic is via the eastbound A55 to Junction 16 (Puffin Roundabout), return westbound to Junction 14 (Madryn Interchange) through Llanfairfechan via Aber Road and Penmaenmawr Road.

Cyffordd 16 (Cylchfan y Puffin) o'r gerbytffordd tua'r dwyrain o amgylch y gerbytffordd gylchredol i ymuno â Ffordd Conwy.

Junction 16 (Puffin Roundabout) from the eastbound carriageway around the circulatory carriageway to join Conwy Road.

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r dwyrain yw ar hyd yr A55 tua'r dwyrain i Gyffordd 17 (Morfa Conwy), dychwelyd tua'r gorllewin i Gyffordd 15 (Cylchfan Llanfairfechan) a dychwelyd tua'r dwyrain i ymadael wrth Gyffordd 15a (Red Gables).

Alternative route for eastbound traffic is via the eastbound A55 to Junction 17 (Conwy Morfa), return westbound to Junction 15 (Llanfairfechan Roundabout) return eastbound to exit Junction 15a (Red Gables).